



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Cymru Ddi-sbwriel a Di-dipio

Cynllun Atal Sbwriel a Thipio
Anghyfreithlon i Gymru

Dyddiad cyhoeddi: **28 Ionawr 2021**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **22 Ebrill 2021**



Trosolwg

Mae taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon yn annerbyniol. Drwy fynd i'r afael â'r problemau hyn gallwn leihau ein heffaith ar yr amgylchedd, lleddfu'r pwysau ariannol ar drethdalwyr, ennyn ymdeimlad o falchder lle ymhlith cymunedau a helpu i gyflawni ein nod o sefydlu economi gylchol yng Nghymru. Mae'r Cynllun hwn yn nodi'r camau gweithredu y credwn ni a fydd yn gallu cyflawni hyn a byddwn yn falch o glywed eich barn arnynt.

Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy ateb y cwestiynau ar y ffurflen sydd ar gael yn <https://llyw.cymru/ymgyngoriadau> . Gallwch hefyd gyflwyno ymatebion a mynegi sylwadau drwy'r post neu drwy e-bost. Mae'r manylion cyswllt isod.

Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:
Is-adran Ansawdd yr Amgylchedd
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: EQR@gov.wales

Rhif ffôn: 0300 0604400

Hefyd ar gael yn Saesneg yn:

<https://gov.wales/consultations>

General Data Protection Regulation (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel. Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ
e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog	1
Cyflwyniad.....	3
Taflu Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon yng Nghymru	3
Effeithiau Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon yng Nghymru.....	4
Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru.....	5
Deddfwriaeth.....	8
Y Pum Thema Allweddol ar gyfer Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon.....	10
Thema 1 – Lleihau Gwastraff	11
Lleihau Gwastraff (WR) – Yr hyn y mae angen inni ei wneud.....	13
Thema 2 – Tystiolaeth, Monitro a Gwerthuso	16
Tystiolaeth, Monitro a Gwerthuso (EME) – Yr hyn y mae angen inni ei wneud ..	18
.....	20
Thema 3 – Addysg a Newid Ymddygiad.....	21
Addysg a Newid Ymddygiad (EBC) – Yr hyn y mae angen inni ei wneud	23
Thema 4 – Gorfodi Effeithiol	28
Gorfodi Effeithiol (EE) – Yr hyn sydd angen inni ei wybod.....	30
.....	33
Thema 5 – Cyflawni Gweithredol Effeithlon.....	34
Cyflawni Gweithredol Effeithlon (EOD) – Yr hyn y mae angen inni ei wneud	36
Atodiad A – Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	40

Rhagair gan y Gweinidog

Rydyn ni'n hen gyfarwydd erbyn hyn â gweld sbwriel a thipio anghyfreithlon yng Nghymru, boed yn wastraff sydd wedi'i adael ar draws ein cefn gwlad hardd, sbwriel wedi'i daflu ar ein strydoedd neu blastig wedi'i olchi i fyny ar ein traethau. Nid oes esgusodion am y math hwn o ymddygiad. Credaf fod gan bawb rôl i'w chwarae i'w atal, o'r rheini sy'n gweithgynhyrchu a gwerthu eitemau sy'n cael eu taflu i ffwrdd, i'r rheini sy'n taflu sbwriel ac yn tipio'n anghyfreithlon. Ein huchelgais yw sicrhau Cymru ddi-sbwriel a di-dipio.



Mae taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon yn bryderon allweddol i'n cymunedau. Gallant fod yn fygythiad i bobl a bywyd gwyllt, niweidio ein hamgylchedd naturiol a difetha ein mwynhad o'n trefi a'n cefn gwlad. Mae amgylchedd naturiol sy'n cael ei ddisbyddu gan sbwriel a thipio anghyfreithlon yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles hirdymor yn ogystal â'n gallu i dyfu ein heconomi. Gallant effeithio ar botensial twristiaeth a mewnfuddsoddi ardal, yn ogystal â gwerth ei chartrefi. Mae tipio anghyfreithlon yn tanseilio busnesau gwastraff cyfreithlon, gyda gweithredwyr anghyfreithlon yn osgoi costau gwaredu gwastraff ac yn codi prisiau is na'r rheini sy'n cydymffurfio â'r gyfraith.

Drwy gydol pandemig COVID-19, mae llawer o bobl wedi ailddarganfod eu hardaloedd lleol, wedi ailgysylltu â nhw ac yn eu gwerthfawrogi'n fwy nag o'r blaen. Ar y cychwyn, roedd llai o sbwriel yn cael ei daflu ar hyd y lle wrth i bobl aros yn eu cartrefi ond wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, roedd sbwriel a thipio anghyfreithlon i'w gweld yn fwy amlwg ar ein strydoedd ac yn ein mannau gwyrdd unwaith eto. Gwelsom hefyd gynnydd mewn tramgwyddau amgylcheddol eraill, megis baeddu gan gŵn. Yn anffodus, dangosodd hyn fod ymddygiad ambell un yn gallu cael effaith sylweddol ar fwynhad y mwyafrif.

Rwyf am i'r balchder sydd wedi datblygu ymhlith ein cymunedau yma yng Nghymru barhau a chynyddu, ac rwyf am gefnogi'r rheini sy'n gweithio'n ddiflino i gyflwyno newidiadau positif yn eu hardaloedd lleol. Yr angerdd a'r ymroddiad hwn yr hoffem eu defnyddio wrth gyflawni ein rhaglen waith. Mae gan bobl Cymru rôl allweddol i'w chwarae o ran sicrhau llwyddiant y camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â sbwriel a thipio anghyfreithlon.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ein Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon. Rydym am alluogi dull strategol o gymryd camau ataliol, cydweithredol a chyson, ar draws pob sector, i leihau effeithiau sbwriel a thipio anghyfreithlon ar iechyd ac ar yr amgylchedd. Mae'r Cynllun wedi'i lywio gan ystod

eang o bartneriaid, gan ddefnyddio eu profiad a'u harbenigedd ar lefel leol a chenedlaethol.

Bydd y camau gweithredu arfaethedig yn y Cynllun yn helpu i sicrhau manteision ehangach i bobl Cymru. Er enghraifft, bydd lleihau faint o arian cyhoeddus y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ei wario ar wasanaethau glanhau yn golygu y gellir gwario mwy ar feysydd eraill, megis iechyd ac addysg. Bydd mannau gwyrdd a glas glanach yn annog pobl i fod yn fwy egniol, gan helpu i wella eu hymdeimlad o lesiant ac yn eu tro yn cyfrannu at boblogaeth iachach.

Bydd Cymru ddi-sbwriel a di-dipio yn annog mwy o ymwelwyr i fwynhau holl harddwch naturiol Cymru ac annog mewnfuddsoddiad, a fydd yn ei dro yn helpu economïau lleol i ffynnu. Credaf y bydd integreiddio ein gweithgareddau ar draws pob sector, gan gynnwys pawb yn llawn ar bob lefel a sicrhau ein bod i gyd yn cymryd cyfrifoldeb, yn sicrhau ein bod yn dod yn genedl lanach ac un sy'n gosod esiampl dda i eraill. Edrychaf ymlaen at gael eich barn ar yr ymgynghoriad hwn.

A handwritten signature in cursive script, reading 'Lesley Griffiths'. The ink is grey and the signature is fluid and elegant.

Lesley Griffiths AS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Cyflwyniad

1. Ein huchelgais yw sicrhau Cymru ddi-sbwriel a di-dipio, lle y mae pawb yn ymfalchïo yn eu hamgylchedd lleol ac yn cymryd perchnogaeth ohono. Er bod hwn yn nod uchelgeisiol, credwn y gallwn sicrhau'r newidiadau positif sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r problemau hyn os bydd pawb yn gweithio gyda'i gilydd i weithredu a datblygu'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun hwn.
2. Rydym y cydnabod y gall gymryd amser i newid ymddygiad pobl ac y gall rhai camau gweithredu yn y Cynllun hwn gymryd hirach nag eraill i'w cwblhau. Felly, fel rhan o'r proses ymgynghori hon, rydym yn awyddus i glywed eich barn ynghylch pa gamau gweithredu y credwch ddylai gael blaenoriaeth ac a oes unrhyw gamau ychwanegol y mae angen eu cynnwys.
3. Dymunwn i'r cynllun fod yn un sy'n esblygu, sy'n newid dros amser i adlewyrchu materion newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. Rydym hefyd yn credu y dylai'r Cynllun hwn fod ar gael i bawb gyda phawb, nid yn unig Llywodraeth Cymru, yn cymryd perchnogaeth o'r camau gweithredu ac yn eu cyflawni.
4. Mae'r adrannau isod yn rhoi trosolwg o'r sefyllfa bresennol yng Nghymru, y mesurau yr ydym wedi'u cyflwyno i fynd i'r afael â'r materion hyn a'r hyn sydd angen digwydd nesaf yn ein barn ni.

Taflu Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon yng Nghymru

Lefelau Sbwriel

5. Caiff lefelau sbwriel yng Nghymru eu monitro ar hyn o bryd gan ddefnyddio [System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol Cymru Gyfan \(LEAMS\)](#). Mae hyn yn cynnwys arolygon gweledol o strydoedd a ddewiswyd ar hap ym mhob Awdurdod Lleol ar draws Cymru. Mae [Cadwch Gymru'n Dacius](#) yn cyhoeddi'r data glendid stryd hyn bob blwyddyn, ar ran Llywodraeth Cymru.
6. Yn 2018-19, adroddwyd bod 96% o'r 3,216 o strydoedd a arolygwyd ar draws Cymru yn radd B neu uwch. Mae'r rhain yn strydoedd y mae aelodau o'r cyhoedd o'r farn bod ganddynt lefel dderbyniol o lendid. Mae'r ffigur hwn wedi bod yn weddol gyson dros y blynyddoedd diwethaf a byddai'n awgrymu bod strydoedd ledled Cymru, ar y cyfan, yn gymharol glir o sbwriel. Fodd bynnag, er gwaethaf y canlyniadau cadarnhaol hyn, rydym yn cydnabod bod gan rai farn wahanol ac adlewyrchir hyn yn aml yn y cwynion a gawn gan y cyhoedd.
7. Mae'r [Gymdeithas Cadwraeth Forol](#) hefyd yn casglu data ar sbwriel morol drwy eu harolygon glanhau traethau blynyddol. Yn 2020, cafodd dros 3,000 metr o draeth Cymru eu glanhau a'u harolygu. Canfuwyd 238 o eitemau sbwriel ar gyfartaledd fesul 100 metr o arfordir Cymru, gyda darnau plastig

bach yn parhau i fod y math mwyaf cyffredin o sbwriel gyda chyfartaledd o 92 darn yn cael eu canfod fesul 100 metr o draeth a arolygwyd.

Lefelau Tipio Anghyfreithlon

8. Mae Awdurdodau Lleol yn cyflwyno eu data ar dipio anghyfreithlon yn chwarterol i [WasteDataFlow](#), sy'n system casglu data ar-lein. Bydd yr wybodaeth yn cynnwys manylion ar faint a natur yr achos o dipio anghyfreithlon, y gost o ddelio ag ef ac unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd. Mae [Taclo Tipio Cymru](#) wedyn yn gwirio ansawdd y data hyn a chaiff eu cyhoeddi'n flynyddol ar [wefan](#) Llywodraeth Cymru. I gynorthwyo'r broses gofnodi hon, mae rhai Awdurdodau Lleol yn defnyddio system mapio GPS [FlyMapper](#) a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ac mae hyn yn galluogi casglu data gofodol a gweledol ychwanegol ar achosion o dipio anghyfreithlon.
9. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweithio'n agos gyda Taclo Tipio Cymru ac Awdurdodau Lleol i wella ansawdd y data a gyflwynir, er mwyn helpu i ddeall maint y broblem yng Nghymru. Mae nifer yr achosion a gofnodwyd yng Nghymru dros y pedair blynedd diwethaf wedi aros yn gymharol sefydlog gyda'r data ar gyfer 2018-19 yn nodi ychydig dros 35,000 o achosion. Fodd bynnag, dylid nodi bod y data hyn yn bennaf yn cynnwys achosion a gofnodir ar dir Awdurdodau Lleol ac felly, nid yw'n cynnwys y rhan fwyaf o achosion sydd wedi digwydd ar dir preifat.

Effeithiau Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon yng Nghymru

10. Mae sbwriel a thipio anghyfreithlon yn difetha ein cymunedau. Maent yn fygythiad i bobl a bywyd gwyllt, difrodi ein hamgylchedd a difetha ein mwynhad o'n trefi a'n cefn gwlad. Gall ansawdd amgylcheddol lleol gwael hefyd gael effaith negyddol ar iechyd meddwl a llesiant pobl, gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol o'r fath yn aml yn arwain at ardal yn ymddangos ar ei gwaethaf ac yn cael ei hesgeuluso. Gall hyn arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddau pellach sydd hyd yn oed yn fwy difrifol. Mae'r mathau hyn o droseddau yn aml yn effeithio'n anghymesur ar gymunedau difreintiedig.
11. Er bod mantoli gwir gost ariannol y troseddau amgylcheddol hyn yn gallu bod yn anodd, mae data a gasglwyd yn 2018/19 gan Awdurdodau Lleol yn dangos y gwariwyd bron [£2 filiwn](#) ar glirio achosion o dipio anghyfreithlon a thros [£53 miliwn](#) ar lanhau strydoedd. Mae clirio sbwriel a nwyddau sydd wedi'u tipio'n anghyfreithlon oddi ar ein rhwydweithiau ffordd hefyd yn ddrud gan fod angen rheoli llif y traffig i sicrhau diogelwch y rheini sy'n gwneud y gwaith clirio. Amcangyfrifir ei bod yn costio [£2 filiwn](#) y flwyddyn i glirio'r math hwn o sbwriel.
12. Dylid nodi nad yw'r ffigurau hyn yn aml yn cynnwys y gost a ysgwyddir gan dirfeddianwyr preifat neu gymdeithasau tai i gael gwared ar wastraff oddi ar eu tir.

13. Gall tipio anghyfreithlon danseilio busnesau gwastraff cyfreithlon, gyda gweithredwyr gwastraff anghyfreithlon yn osgoi costau gwaredu gwastraff ac yn codi prisiau is na'r rheini sy'n cydymffurfio â'r gyfraith. Mae llawer o fannau lle y mae tipio anghyfreithlon yn broblem hefyd yn dioddef o danau bwriadol sydd, ar gyfartaledd, yn costio o tua [£2,000](#) fesul galwad i'r Gwasanaethau Tân ac Achub. Dim ond dau o gostau economaidd tipio anghyfreithlon sy'n aml yn cael eu hanghofio yw'r rhain.
14. Gall costau o'r fath fod yn faich ariannol sylweddol ar bawb sy'n ymwneud â chlirio troseddau amgylcheddol ac ymchwilio iddynt. Yn achos Awdurdodau Lleol, arian trethdalwyr yw hwn yn y pen draw. Gellid dyrannu'r arian hwn i fannau eraill, er enghraifft, gofal cymdeithasol neu addysg.
15. Gall fod yn anodd cofnodi effaith gronol sbwriel a thipio anghyfreithlon ar ein hamgylchedd. Darganfyddir bellach fod rhai deunyddiau fel plastig yn effeithio ar ecosystemau cyfan yn hytrach na lleoliadau neu organebau unigol. Gall dympio gwastraff gwyrdd a gwastraff gardd hefyd fod yn niweidiol. Er enghraifft, bu digwyddiadau lle'r oedd iechyd anifeiliaid fferm yn cael ei beryglu o fwyta toriadau glaswellt sy'n pydru.
16. Mae effeithiau economaidd a chymdeithasol ehangach hefyd. Gall presenoldeb llawer iawn o sbwriel a thipio anghyfreithlon yng nghefn gwlad, ein trefi a'n dinasoedd ac ar hyd ein harfordiroedd gael effaith weledol negyddol. Gall hyn atal twristiaid rhag ymweld a busnesau rhag buddsoddi, gan effeithio ar ein heconomiâu lleol. Mae colli deunyddiau ailgylchadwy neu ddeunyddiau y gellir eu hailddefnyddio hefyd yn tynnu oddi ar ein hamcanion i sefydlu economi gylchol yng Nghymru.

Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru

Darparu atebion lleol i broblemau lleol

17. Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati'n bennaf i fynd i'r afael â thaflu sbwriel a thipio anghyfreithlon yng Nghymru. Er bod rhai prosiectau penodol wedi gweithredu ar lefel Cymru gyfan, megis ein [hymgyrch dyletswydd gofal](#) gwastraff cartref, rydym wedi canolbwyntio ar gefnogi cymunedau i fynd i'r afael â materion amgylcheddol ar lefel leol.
18. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, rydym wedi darparu cyllid grant i amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys pob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru, grwpiau cymunedol, sefydliadau Trydydd Sector megis Cadwch Gymru'n Daclus a chyrff megis Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r cyllid hwn wedi cefnogi amrywiaeth o brosiectau a rhaglenni ledled Cymru, o ddatblygu deunyddiau addysgol i ddod â mannau cymunedol sydd wedi'u hesgeuluso yn ôl i ddefnydd buddiol.

19. Drwy fabwysiadu'r dull hwn, ein nod oedd grymuso cymunedau i gymryd mwy o berchnogaeth am eu hardal leol ac annog pobl i ddatblygu mwy o ymdeimlad o falchder yn y mannau y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt. Credwn fod hyn wedi arwain at ddatblygu atebion mwy cynaliadwy a hirdymor ymhlith y cymunedau yr ydym wedi'u cefnogi.
20. Rydym hefyd wedi ymdrechu i sicrhau bod grwpiau a sefydliadau cymunedol yn gallu dod yn hunangynhaliol, gan eu helpu i barhau i weithredu ar ôl i'r cyllid grant ddod i ben. Mae'r nifer mawr o grwpiau sydd wedi ymgeisio am ein cyllid dros y blynyddoedd, a hyd yn oed y rheini sydd wedi sefydlu eu hunain heb gymorth ariannol uniongyrchol, yn dangos bod awydd clir ymhlith ein dinasyddion i weld newidiadau cadarnhaol ar lefel leol.
21. Heb un amheuaeth mae mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar gymunedau wedi bod yn llwyddiannus yng Nghymru, ond mae ceisio dylanwadu ar ymddygiad ar raddfa fawr wedi bod yn anodd. Yn aml mae hyn yn gofyn am ddull cydlynol a chyson ar lefel genedlaethol. Gall hefyd ei gwneud yn anodd i lywodraeth leol a chenedlaethol ymateb yn gyflym i broblemau sy'n dod i'r amlwg o ran sbwriel a thipio anghyfreithlon ar raddfa eang. Enghraifft ddiweddar o hyn yw'r problemau cynyddol sy'n dod i'r amlwg yn dilyn llacio cyfyngiadau symud COVID-19 yn ystod misoedd haf 2020.

Gweithio mewn partneriaeth

22. Rydym hefyd wedi edrych ar feithrin partneriaethau cadarn gydag eraill. Rydym yn cydnabod nad yw un sefydliad yn gallu mynd i'r afael â'r materion hyn ar ei ben ei hun. Dim ond drwy weithio gyda'n gilydd y gallwn wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl Cymru. Nid yw'r bobl hynny sy'n taflu sbwriel neu'n tipio'n anghyfreithlon yn aml yn poeni am bwy sy'n berchen ar y tir neu bwy fydd yn gorfod talu i'w glirio. Mae hyn yn golygu bod angen cynnwys amrywiaeth eang o sectorau, nid yn unig cyrff cyhoeddus, wrth inni geisio ddod o hyd i atebion i'r problem.
23. Enghraifft llwyddiannus o'r dull hwn yw menter Taclo Tipio Cymru, a gydlynir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n gweithio'n agos gyda sefydliadau statudol, mudiadau gwirfoddol, busnesau, tîrfeddianwyr a grwpiau cymunedol ledled Cymru. Nod y fenter yw pontio'r bwlch rhwng y partneriaid hyn a sicrhau bod blaenoriaethau strategol yn gysylltiedig â gweithredu ar lawr gwlad. Er mwyn helpu i gyflawni hyn mae wedi sefydlu fforymau tipio anghyfreithlon sydd wedi galluogi partneriaid i rannu arferion gorau a'u galluogi i fynd i'r afael â materion ar lefel leol.
24. Enghraifft arall yw ein Grŵp Cynghori ar Sbwriel sy'n grŵp arbenigol amlddisgyblaethol y mae ei aelodau yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru, y Gymdeithas Cadwraeth Morol, Consortïwm Manwerthu Cymru a Phrifysgol Caerdydd. Mae'r grŵp hwn wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu'r Cynllun hwn ac rydym

yn bwriadu defnyddio ei arbenigedd i oruchwyllo hynt y Cynllun.

Polisiau a strategaethau

25. Cyflwr ein hadnoddau naturiol yw'r gwaddol pwysicaf y byddwn yn ei roi i genedlaethau'r dyfodol. I sicrhau dyfodol mwy ffyniannus a chydnerth i Gymru, rhaid inni reoli ein tir, ein haer a'n dŵr yn gynaliadwy. Credwn y dylai amgylchedd glân, iachus a diogel fod o fudd i bawb Nghymru a dylai pawb fod yn gallu mwynhau amgylchedd o'r fath, ac mae'r nod hwn wrth wraidd y Cynllun. Mae gennym gyfrifoldeb byd-eang hefyd i leihau effaith y ffordd yr ydym yn defnyddio a chynhyrchu deunyddiau. Drwy weithredu'r camau yn y Cynllun hwn, byddwn yn helpu i gyflawni nodau [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).
26. Datblygwyd y Cynllun i ddarparu, gwella ac ategu sawl nod a strategaeth sydd eisoes yn bodoli gan Lywodraeth Cymru. Mae trosolwg ohonynt i'w weld isod.

Cynllun Gweithredu i Gymru ar Sbwriel Môr (MLAP)

27. Mae cryn dipyn o sbwriel morol yn tarddu o'r tir ac yn cyrraedd ein moroedd drwy ein hafonydd neu o daflu sbwriel yn uniongyrchol ar ein traethau. Mae'r Cynllun hwn yn ategu gwaith y [Cynllun Gweithredu i Gymru ar Sbwriel Morol \(MLAP\)](#). Cynrychiolir aelodau'r Bartneriaeth Môr Glân ar ein Grŵp Cyngori ar Sbwriel. Mae hefyd yn annog partneriaid a busnesau i ymrwymo i addewid gwirfoddol i newid y ffordd y maent yn trin plastig a gwastraff.
28. Egwyddor graidd yr MLAP yw atal ac mae'n cefnogi ein gweledigaeth o foroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol. Credwn y gellir integreiddio rhai o'r camau gweithredu a gynhwysir yn yr MLAP yn ein rhaglen waith. Fodd bynnag, mae nifer o faterion penodol sy'n ymwneud â'r môr yn haeddu cynllun annibynnol. Er enghraifft, mae'r MLAP yn ceisio mynd i'r afael â sbwriel offer pysgota, rhywbeth sydd y tu allan i gwmpas Cynllun sy'n canolbwyntio ar y tir.

Strategaeth yr Economi Gylchol

29. Canfu ein [hastudiaeth](#) yn 2019 o gyfansoddiad gwastraff sbwriel yng Nghymru y gallai 61% o'r holl wastraff sbwriel yn ôl pwysau a gasglwyd ac a ddadansoddwyd fod wedi'i ailgylchu gan ddefnyddio systemau ailgylchu presennol naill ai gartref, mewn banciau neu mewn canolfannau ailgylchu. Roedd hyn yn cyfrif am tua 15,683 tonnall o ddeunydd sbwriel ailgylchadwy dros y flwyddyn. Mae hyn yn swm sylweddol o adnoddau a allai fod yn werthfawr sy'n cael eu colli o'r system naill ai drwy fynd i mewn i'r amgylchedd fel sbwriel neu gael eu hanfon i safleoedd tirlenwi drwy finiau sbwriel.
30. Felly, bydd atal y deunyddiau hyn rhag cael eu colli yn helpu i gefnogi ein nodau ehangach o ran lleihau gwastraff a gwella effeithlonrwydd

adnoddau sydd wedi'u cynnwys yn ein Strategaeth Economi Gylchol, [Mwy Nag Ailgylchu](#). Drwy fynd i'r afael â sbwriel a thipio anghyfreithlon credwn y gallwn helpu i greu Cymru lle mae adnoddau'n cael eu defnyddio cyhyd ag y bo modd, bod gwastraff yn cael ei osgoi, a bod hyn oll yn rhan o'n diwylliant modern.

COVID-19, Adferiad Gwyrdd a'r Argyfwng Hinsawdd

31. Drwy gyfrannu tuag at y newid hwn i economi fwy cylchol, bydd y Cynllun hwn hefyd yn cefnogi ein hadferiad gwyrdd wrth inni ddod allan o bandemig COVID-19. Bydd mynd i'r afael â chynhyrchu a defnyddio eitemau untro a deunydd pacio diangen yn anghynaliadwy yn helpu i wella iechyd y cyhoedd, effeithlonrwydd ein hadnoddau, lleihau ein defnydd o adnoddau naturiol a lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

Cymru Ddi-dipio

32. Rydym wedi penderfynu cyfuno ein strategaeth tipio anghyfreithlon flaenorol, "[Cymru ddi-dipio](#)", â'n huchelgais i fynd i'r afael â thaflu sbwriel mewn un Cynllun. Rydym yn cydnabod bod elfen droseddol gryfach yn gysylltiedig â thipio anghyfreithlon o'i chymharu â thaflu sbwriel ac mae hefyd yn cynnig nifer o heriau unigryw. Bydd y Cynllun hwn, felly, yn amlygu lle mae angen dulliau gwahanol i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon a thaflu sbwriel. Fodd bynnag, credwn fod y camau gweithredu a'r themâu sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r ddau fater yn gyson ar y cyfan. Wrth gyflawni'r Cynllun hwn, byddwn hefyd yn parhau i gefnogi rhaglen Taclo Tipio Cymru ac yn cysylltu â'i phartneriaid i helpu i ddatblygu ein polisiau ar dipio anghyfreithlon.
33. Mae'r Cynllun yn nodi cynigion ar gyfer fframwaith strategol y gall ein sefydliadau partner weithredu ohono, gan sicrhau ein bod i gyd yn cydweithio ar lefel leol a chenedlaethol i gyflawni'r un nodau. Bydd dull cydgysylltiedig yn galluogi cyflwyno negeseuon a chamau gweithredu cyson ar lefel Cymru gyfan, gan helpu pobl i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud a pham.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno y dylid ymdrin â thaflu sbwriel a thipio anghyfreithlon mewn un cynllun sengl? Os nad ydych, rhowch reswm am eich ateb.


Deddfwriaeth

34. Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol o dan [Adran 89](#) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (EPA 1990) i sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fod eu tir yn cael ei gadw'n glir o sbwriel a gwastraff. Mae hyn yn cynnwys ffyrdd cyhoeddus ond nid yw'n cynnwys traffyrdd a rhannau o'r A55(T) sy'n cael eu dosbarthu fel ffyrdd arbennig gan mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw'r rhain.

35. Mae'r ddyletswydd hefyd yn ymestyn i gyrff eraill sy'n cynnwys sefydliadau addysgol (prifysgolion, colegau ac ysgolion a ariennir yn gyhoeddus), rhai Awdurdodau'r Goron a rhai gweithredwyr trafnidiaeth (er enghraifft gweithredwyr gorsafoedd rheilffordd a thraciau). Mae'r ffordd y mae'r gyrff hyn yn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon wedi'i nodi yn ein canllawiau Cod Ymarfer ar Sbwriel a Gwastraff (CoPLAR).
36. Mae gan ddeiliaid tai a busnesau ddyletswydd hefyd o dan EPA 1990 i sicrhau bod eu gwastraff yn cael ei waredu'n gywir ([Adran 34](#)). Mae [cod ymarfer](#) wedi'i ddatblygu i roi arweiniad ar sut y gellir bodloni'r gofynion hyn. Er enghraifft, bydd angen i ddeiliaid tai wirio a yw'r person y mae wedi rhoi ei wastraff iddo wedi'i awdurdodi i wneud hynny (mae ganddo drwydded cludo gwastraff).
37. O dan EPA 1990, mae taflu sbwriel ([Adran 87](#)) a thipio anghyfreithlon ([Adran 33](#)) yn droseddau. Mae hyn yn golygu bod Awdurdodau Lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru yn gallu ymgymryd ag ystod o gamau gorfodi yn erbyn y rhai sydd wedi cyflawni trosedd. Mae hyn yn cynnwys rhoi cosbau penodedig neu fynd â nhw i'r llys os bernir bod y drosedd yn ddigon difrifol neu os yw am drosedd sydd wedi'i hailadrodd.
38. Dylid nodi fod nifer o newidiadau a diwygiadau wedi'u gwneud ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon. Gwnaed y rhain drwy'r darnau canlynol o ddeddfwriaeth:
- [Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003](#)
 - [Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005](#)
 - [Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014](#)
 - [Rheoliadau Dyddodi Gwastraff Heb Awdurdod \(Cosbau Penodedig\) \(Cymru\) 2017](#)
 - [Rheoliadau Dyletswydd Gofal o ran Gwastraff Cartref \(Cosbau Penodedig\) 2019](#)
39. Rydym yn cefnogi camau gorfodi ac mae profiad wedi dangos bod y cyhoedd yn gyffredinol yn croesawu ei ddefnydd ar yr amod ei fod yn cael ei wneud yn synhwyrol, yn cael ei orfodi'n gyfartal ac yn cael ei ystyried yn ymateb i broblemau gwirioneddol. Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, rydym wedi cyhoeddi [canllawiau](#) i Awdurdodau Lleol ar ddefnyddio cosbau penodedig ac mae'r Cyngor Dedfrydu wedi darparu [canllawiau](#) ar gyfer troseddau amgylcheddol mewn perthynas â'r llysoedd.
40. Er bod camau gorfodi yn bwysig, credwn na ddylent fod yr unig gamau y dylid eu cymryd. Dylent fod yn rhan o ddull mwy cyfannol sy'n integreiddio dulliau atal, cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth.

Y Pum Thema Allweddol ar gyfer Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon

41. Wrth ddatblygu'r Cynllun hwn gyda'n partneriaid, rydym wedi nodi pum thema allweddol sy'n hanfodol yn ein barn ni i sicrhau Cymru Ddi-sbwriel a Di-dipio. Bydd hyn yn helpu i lunio ein rhaglen waith wrth symud ymlaen. Amlinellir y themâu hyn yn y ffigur isod.



Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'r themâu yr ydym ni wedi'u dewis? Ydych chi'n meddwl y byddant yn ein helpu i gyflawni ein huchelgeisiau? Os na, pa themâu eraill sydd angen eu cynnwys yn eich barn chi?

Thema 1 – Lleihau Gwastraff

42. Un dull o atal taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon yw dileu neu leihau'r cyfle iddynt ddigwydd yn y lle cyntaf. Gellir cyflawni hyn mewn nifer o ffyrdd. Er enghraifft, drwy leihau faint o ddeunydd pacio a ddefnyddir ar gyfer cynnyrch mae'n bosibl cyfyngu ar faint o ddeunydd y mae angen ei daflu i ffwrdd neu a allai gael ei daflu'n sbwriel ar hyd y lle.
43. Mae hefyd yn bosibl lleihau nifer yr eitemau y mae angen eu gwaredu ar ôl eu defnyddio unwaith yn unig drwy annog pobl i brynu cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio neu drwy ei gwneud yn haws i bobl drwsio eitem. Y math hwn o ddull ataliol y bwriadwn ei roi wrth wraidd ein proses llunio polisïau a deddfwriaeth.

Lle'r ydym ni arni nawr

44. Mae Cymru eisoes yn wlad lle mae ailddefnyddio ac atal gwastraff yn gyffredin. Mae nifer cynyddol o gymunedau yng Nghymru yn cael statws "[Di-blastig](#)" am eu hymdrechion i leihau'r defnydd o blastig untro ac mae'r cysyniad o'r economi rhannu yn dechrau lledaenu ledled y wlad, er enghraifft, mae ystod eang o fentrau wedi'u sefydlu i gasglu [bwyd dros ben](#). Mae sefydlu gorsafoedd [Ail-lenwi](#) ledled y wlad yn helpu i leihau'r angen am boteli plastig untro ac mae siopau ailddefnyddio a chynlluniau Trydydd Sector yn dargyfeirio eitemau o safleoedd tirlenwi neu'n eu hatal rhag cael eu dympio. Mae busnesau lleol eu hunain hefyd yn dod yn fwy rhagweithiol wrth leihau ac atal gwastraff. Mae ysgolion a grwpiau cymunedol eraill hefyd yn arwain camau cydgysylltiedig ar sbwriel. Rydym yn cefnogi'r mathau hyn o fentrau am eu bod yn atal gwastraff ac yn lleihau'r cyfle i'r eitemau hyn gael eu taflu fel sbwriel neu eu tipio'n anghyfreithlon.
45. Rydym yn cydnabod bod lle i wella o hyd mewn rhai meysydd. Er enghraifft, mae data blynyddol ar dipio anghyfreithlon a gafwyd gan Awdurdodau Lleol yn dangos bod dros 70% o ddigwyddiadau'n ymwneud â gwastraff cartref. Mae hyn yn awgrymu bod angen gwneud mwy i sicrhau bod pobl yn gallu cael gwared ar eu heitemau diangen yn hawdd ac yn gyfreithlon. Mae llawer o'r eitemau hyn a gaiff eu gwaredu yn werthfawr i'n heconomi a gellir eu hailddefnyddio neu eu hailbroseu i wneud mwy o'r nwyddau a'r cynhyrchion y mae arnom eu hangen.
46. Rydym yn cymryd camau i fynd i'r afael ag eitemau plastig untro ac mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth gyda Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd. Yn ogystal, rydym yn gweithio gyda holl weinyddiaethau'r DU ar gynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynnu.
47. Bwriadwn adolygu'r rheoliadau presennol ar gyfer codi tal am fagiau

plastig untro i leihau'r defnydd cynyddol o "Fagiau am Oes".

Yr hyn hoffwn ei gyflawni

48. Rydym yn croesawu'r newid sy'n dod i'r amlwg yn niwylliant defnyddwyr a'r ymwybyddiaeth gynyddol o'r amgylchedd, ond rydym am fynd ymhellach yng Nghymru. Rydym am weithio gyda busnesau a gweithgynhyrchwyr i helpu i gynllunio sbwriel a thipio anghyfreithlon yn y man lle y mae'n tarddu, waeth beth fo'r deunydd ac i ddatblygu atebion arloesol ar ddechrau'r broses.
49. Rydym am sicrhau bod pobl yn symud i ffwrdd o eitemau untro ac yn defnyddio opsiynau y gellir eu hailddefnyddio neu sy'n fwy amgylcheddol gynaliadwy drwy gyfyngu ar eu presenoldeb ar y farchnad.
50. Rydym am fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo cynlluniau a mentrau sy'n helpu deiliaid tai a busnesau yng Nghymru i leihau faint o wastraff y maent yn ei gynhyrchu. Gallai hyn fod drwy aildefnyddio cynhyrchion neu drwy ymestyn eu hoes drwy eu trwsio. Bydd hyn yn helpu i leihau'r cyfleoedd i wastraff gael ei daflu'n sbwriel neu ei dipio'n anghyfreithlon.
51. Dylai pawb yng Nghymru allu storio a gwaredu eu gwastraff yn ddiogel, yn gyfreithlon ac yn gyfrifol, a dylent wybod sut i wneud hynny. Nid oes esgus am dipio gwastraff yn anghyfreithlon.

Lleihau Gwastraff (WR) – Yr hyn y mae angen inni ei wneud

Nod	Cyfeirnod	Gweithgarwch	Perchennog	Amserlen/ Gwybodaeth ychwanegol
Lleihau'r eitemau untro sy'n cael eu taflu fel sbwriel yng Nghymru	WR(1)	Datblygu dull fesul cam o fynd i'r afael â chynnyrch plastig untro sy'n aml yn cael eu taflu fel sbwriel yn yr amgylchedd morol.	Llywodraeth Cymru	Parhaus
	WR(2)	Byddwn yn cael pwerau i alluogi codi tâl am eitemau plastig untro .	Llywodraeth Cymru	Dechrau 2021 Bil Amgylchedd Drafft y DU (Adran 61)
	WR(3)	Byddwn yn comisiynu a chyhoeddi ymchwil i nodi'r ymyriadau gorau ar gyfer eitemau plastig untro problemus megis hancesi gwlyb, eitemau ar gyfer y mislif a hidlyddion sigarêts.	Llywodraeth Cymru	Dechrau 2021
	WR(4)	Byddwn yn gweithio gyda busnesau a gweithgynhyrchwyr o Gymru i ddatblygu dewisiadau arloesol a chynaliadwy eraill yn hytrach na phlastig untro .	Llywodraeth Cymru/ Sectorau Busnes a Gweithgynhyrchu	Yn parhau

	WR(5)	Byddwn yn cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes i helpu i leihau nifer y cynwysyddion diodydd sy'n cael eu taflu fel sbwriel .	Llywodraeth Cymru/ Awdurdodau Lleol/ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/ Busnesau	2023/ 2024 Bil Amgylchedd Drafft y DU (Adran 51)
	WR(6)	Byddwn yn gweithio'n fewnol gydag adrannau eraill, gan gynnwys twristiaeth a diwylliant i sicrhau bod digwyddiadau sy'n cael eu noddi neu eu hariannu gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys darpariaethau i atal neu leihau nifer yr eitemau untro sy'n cael eu taflu fel sbwriel .	Llywodraeth Cymru	Yn parhau
	WR(7)	Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau partner a chymunedau i nodi mesurau i fynd i'r afael â'r amryfal faterion sy'n gysylltiedig â baeddu gan gŵn, er enghraifft, gwaredu bagiau baeddu cŵn mewn ffordd amhriodol.	Llywodraeth Cymru/ Awdurdodau Lleol/ Cynghorau Tref a Chymuned/ Cadwch Gymru'n Daclus/Eraill	Yn parhau
	WR(8)	Byddwn yn comisiynu a chyhoeddi ymchwil bellach i helpu i lywio pa newidiadau sydd eu hangen i'r bagiau siopa untro presennol yng Nghymru.	Llywodraeth Cymru/ Sector	2020/21 Ymchwil i werthiant a defnydd bagiau siopa yng Nghymru

Gweithredu i annog mwy o ailddefnyddio cynhyrchion/eitemau yng Nghymru			Busnes a Manwerthu	(2019)
	WR(9)	Byddwn yn ymgynghori ar reoliadau newydd yn ymwneud â bagiau siopa yng Nghymru, ac yn eu cyflwyno.	Llywodraeth Cymru / Sector Busnes a Manwerthu	2022/23 Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010
	WR(10)	Byddwn yn parhau i gefnogi prosiectau a fydd yn hyrwyddo ailddefnyddio/atgyweirio cynhyrchion.	Llywodraeth Cymru/ Busnesau/ Trydydd Sector	Yn parhau Enghraifft: Ail-lenwi Cymru
Gweithio gyda busnesau a gweithgynhyrchwyr i gael gwared ar sbwriel yn y tarddiad	WR(11)	Byddwn yn cyflwyno Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a fydd yn helpu i gymell mwy o becynnau ecogyfeillgar a darparu cyllid posibl ar gyfer mesurau gwrth-sbwriel .	Llywodraeth Cymru/ Busnesau/ Sector Gweithgynhyrc hu	2023/2024 Mwy Nag Ailgylchu/ Strategaeth yr Economi Gylchol

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu a awgrymir dan y thema lleihau gwastraff? Os na, nodwch eich rhesymau.

Cwestiwn 4: Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys camau gweithredu eraill dan y thema lleihau gwastraff i gyflawni nodau'r Cynllun? Os ydych, darparwch wybodaeth a thystiolaeth berthnasol.

Thema 2 – Tystiolaeth, Monitro a Gwerthuso

52. Ein nod yw datblygu sylfaen dystiolaeth gadarn i'n galluogi i ddeall yn well pam mae taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon yn digwydd yn y lle cyntaf, ochr yn ochr â monitro a gwerthuso llwyddiant y Cynllun hwn. Gan y bydd ymddygiadau gwahanol yn gofyn am fathau penodol o ymyriadau, bydd casglu'r dystiolaeth hon yn ein galluogi i ddatblygu'r camau mwyaf effeithiol i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Lle'r ydym ni arni nawr

53. Fel y nodwyd eisoes, mae lefelau taflu sbwriel yn cael eu monitro ar hyn o bryd gan arolygon LEAMs yng Nghymru. Er bod yr adroddiadau hyn yn ddefnyddiol, mae ganddynt gyfyngiadau. Er enghraifft, nid ydynt yn cynnwys lefelau sbwriel ar hyd ymylon ffyrdd, mewn parciau ac yn amgylchedd y môr neu'r glannau. Yn ei hanfod, maent yn rhoi cipolwg ar y lefelau taflu sbwriel ar strydoedd ar ddyddiad ac amser penodol. Nid ydynt chwaith yn ymddangos eu bod yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r cyhoedd am lefelau sbwriel. Er enghraifft, yn 2019 canfu arolwg byr ar daflu sbwriel a gynhaliwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus, fod dros 80% o'r 701 o bobl a ymatebodd naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno bod sbwriel yn broblem ddifrifol yn eu hardal.
54. Er mwyn helpu i ddeall pa eitemau sy'n cael eu taflu ar draws Cymru, rydym hefyd wedi cynnal [astudiaeth](#) fanwl ar gyfansoddiad y gwastraff a gesglir gan Awdurdodau Lleol o finiau sbwriel a gweithgareddau glanhau strydoedd. Canfu hyn mai gwastraff pydradwy, megis gwastraff fel bwyd a baw cŵn, oedd y deunydd a ganfuwyd amlaf, yn ôl pwysau, mewn biniau sbwriel. O ran gwastraff a gasglwyd o weithgareddau casglu sbwriel, papur a cherdyn, yn ôl pwysau, oedd y deunyddiau a ganfuwyd amlaf. Pan oedd yr astudiaeth yn cyfrif pob eitem yn unigol, canfuwyd mai eitemau papur a cherdyn oedd y rhai mwyaf cyffredin mewn biniau sbwriel a gwastraff o weithgareddau casglu sbwriel, ac yna ffilmiau plastig. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r arolygon sbwriel, mae cyfyngiadau yma hefyd a dim ond cipolwg o'r broblem a roddir. O ystyried natur sbwriel a'r ystod eang o newidynnau dan sylw, mae'n annhebygol y cawn byth ddarlun cyflawn o'r broblem.
55. Rydym yn cydnabod y gall datblygiadau mewn technoleg a'r defnydd cynyddol o ddyfeisiau symudol ddarparu cyfleoedd i wella'r ffordd rydym yn casglu data. Gallai hyn gynnwys mapio sbwriel yn ofodol a chysylltu â mathau eraill o setiau data, er enghraifft, data a gesglir o weithgareddau casglu sbwriel cymunedol.

Tipio Anghyfreithlon

56. Fel y nodwyd eisoes, mae Awdurdodau Lleol yn cyflwyno eu data bob chwarter ac er y darperir canllawiau ar sut y dylid cofnodi'r wybodaeth hon, gall y dull gwirioneddol o gofnodi hyn amrywio. Er enghraifft, gall rhai Awdurdodau Lleol ddefnyddio llwyfannau TG mewnol i gofnodi eu

hachosion o dipio anghyfreithlon, tra bydd eraill yn defnyddio'r system [FlyMapper](#) GPS a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

57. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Taclo Tipio Cymru ac Awdurdodau Lleol i helpu i safoni'r dull o gasglu data yng Nghymru. Bydd hyn yn galluogi i dargedu adnoddau yn effeithiol a'n galluogi i ddangos a yw arferion presennol yn effeithio ar y lefelau tipio anghyfreithlon.

Yr hyn hoffwn ei gyflawni

58. Rydym am ddatblygu mecanwaith a fydd yn ein galluogi i gasglu tystiolaeth ar ffynonellau, mathau a lleoliadau gwahanol ddeunyddiau sbwriel. Bydd hyn nid yn unig yn ein galluogi i nodi maint a natur y broblem ond hefyd yn ein galluogi i ddatblygu ymyriadau a fydd yn atal y broblem rhag digwydd yn y lle cyntaf.
59. Gall y ffordd y mae'r cyhoedd yn gweld yr amgylchedd lleol sydd o'u cwmpas a'r effaith y gall taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon ei chael effeithio'n uniongyrchol ar lesiant unigolyn. Gall meithrin gwell dealltwriaeth o sut y gall y rhyngweithio hwn ddylanwadu ar ymddygiad ac agweddau pobl helpu i fireinio ein polisïau a thargedu adnoddau.
60. Rydym am sicrhau ein bod yn cofnodi digwyddiadau tipio anghyfreithlon ar dir preifat a thir cyhoeddus yn effeithiol. Byddai'r data hyn yn cael eu casglu'n ofodol a'u defnyddio gan sefydliadau partner i helpu i gydgysylltu camau gweithredu yn erbyn tipio anghyfreithlon.

Tystiolaeth, Monitro a Gwerthuso (EME) – Yr hyn y mae angen inni ei wneud

Nod	Cyfeirnod	Gweithgarwch	Perchennog	Amserlen (Gwybodaeth Ychwanegol)
Gwell dealltwriaeth o ffynonellau, lefelau ac effeithiau taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon yng Nghymru	EME(1)	Byddwn yn sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i werthuso'r sylfaen dystiolaeth bresennol, nodi arferion gorau rhyngwladol a chyflwyno amrywiaeth o opsiynau posibl i wella sut y caiff achosion o daflu sbwriel eu hadrodd yng Nghymru.	Llywodraeth Cymru/ Awdurdodau Lleol/ Cadwch Gymru'n Daclus/ Partneriaid Eraill	Dechrau 2021
	EME(2)	Byddwn yn gweithio gyda Taclo Tipio Cymru ac Awdurdodau Lleol i wella sut y caiff data am dipio anghyfreithlon yng Nghymru eu cofnodi a'u hadrodd.	Llywodraeth Cymru/ Taclo Tipio Cymru/ Awdurdodau Lleol	Yn parhau
	EME(3)	Byddwn yn gweithio gyda busnesau, a rheolwyr a pherchnogion tir i wella sut y caiff achosion o daflu sbwriel a thipio anghyfreithlon ar dir preifat eu cofnodi a'u hadrodd.	Llywodraeth Cymru/ Busnesau / Perchnogion a rheolwyr tir/ Awdurdodau Lleol	Yn parhau

	EME(4)	Datblygu safon data gyffredin i alluogi mapio tipio anghyfreithlon yn ofodol yng Nghymru.	Llywodraeth Cymru/ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Awdurdodau Lleol/ Cyfoeth Naturiol Cymru/ Tirfeddiannwyr Preifat	2022
	EME(5)	Byddwn yn parhau i gefnogi rhaglenni hyfforddi ar ddata ar gyfer Awdurdodau Lleol.	Llywodraeth Cymru/ Awdurdodau Lleol/ Taclo Tipio Cymru/ Cadwch Gymru'n Daclus	Yn parhau
Gwerthuso llwyddiant ein Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon	EME(6)	Adolygu dangosyddion/mesurau perfformio/gofynion adrodd presennol ar gyfer taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon yng Nghymru i ddatblygu llinell sylfaen ar gyfer monitro.	Llywodraeth Cymru/ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Awdurdodau Lleol / Cadwch Gymru'n Daclus / Cyfoeth Naturiol Cymru	2021
	EME(7)	Datblygu dangosfwrdd adrodd i helpu i werthuso'r cynnydd sy'n cael ei wneud wrth weithredu'r Cynllun.	Llywodraeth Cymru/ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Awdurdodau Lleol	2021

			/ Cadwch Gymru'n Daclus / Cyfoeth Naturiol Cymru / Arall	
--	--	--	---	--

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu a awgrymir dan y thema tystiolaeth, monitro a gwerthuso gwastraff? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.

Cwestiwn 6: Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys camau gweithredu eraill dan y thema tystiolaeth, monitro a gwerthuso gwastraff i gyflawni nodau'r Cynllun? Os ydych, darparwch wybodaeth a thystiolaeth berthnasol.

Thema 3 – Addysg a Newid Ymddygiad

61. Er y gall y Llywodraeth osod fframwaith ar gyfer sicrhau newid cadarnhaol mewn ymddygiad ymhlith cymdeithas, yn y pen draw mae angen i bawb weithredu i sicrhau llwyddiant eang a pharhaol. Rhaid i bawb, o ddinasyddion unigol i gymunedau lleol i fusnesau bach i arweinwyr bydeang, chwarae eu rhan.
62. Er ei bod yn bwysig bod plant yn cael eu haddysgu o oedran cynnar am effeithiau negyddol sbwriel a thipio anghyfreithlon, rydym hefyd yn cydnabod na ddylai addysg ddod i ben yno ac mae angen i bawb ddeall y niwed y gall eu gweithredoedd anghyfrifol ei gael ar yr amgylchedd a'u cymuned ehangach.

Lle'r ydym ni arni

63. Mae'r amgylchedd wedi dod yn bwysicach fyth i'r cyhoedd, yn enwedig yng ngoleuni pryderon ynghylch llygredd plastig ac adrodd yn y cyfryngau am fwy o daflu sbwriel a thipio anghyfreithlon sy'n gysylltiedig â chyfyngiadau symud COVID-19. Er mwyn gwella ymwybyddiaeth o effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y gweithgareddau hyn, rydym yn parhau i ddatblygu ein negeseuon cyfathrebu ar draws ystod o lwyfannau. Mae hyn wedi cynnwys ymgyrchoedd yn y cyfryngau cymdeithasol ar daflu masgiau wyneb untro a negeseuon ar y teledu a'r radio i annog pobl i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gwastraff cartref. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod cyfleoedd i ddatblygu ein hymgyrchoedd ymhellach.
64. O ran addysg, mae dros 90% o'r ysgolion yng Nghymru yn rhan o'r rhaglen eco-ysgolion sy'n addysgu plant am amrywiaeth eang o faterion amgylcheddol. Mae'r rhaglen addysgol hon a arweinir gan ddisgyblion sy'n seiliedig ar y byd go iawn yn sicrhau bod ysgolion, pobl ifanc, teuluoedd a'r gymuned ehangach yn rhan o brosiectau amgylcheddol ymarferol. Rydym hefyd yn parhau i gefnogi sefydliadau ac elusennau amgylcheddol i weithio'n agos gydag ysgolion a phobl ifanc.
65. Credwn fod [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn darparu llwyfan gadarn i ddatblygu a chyfathrebu ein gweledigaeth ynghylch sut olwg fyddai ar Gymru gynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi defnyddio sawl dull i newid ymddygiad yng Nghymru. Yn bennaf, arweiniodd y penderfyniad i godi tâl am fapiau siopa untro at leihad sydyn yn eu defnydd, gan godi ymwybyddiaeth am eu heffaith ar yr amgylchedd.
66. Rydym yn parhau i ddysgu o'r profiadau hyn a phrofiadau pobl eraill ledled y byd sydd wedi cyflwyno mesurau mewn ymgais i newid ymddygiad amgylcheddol anghyfrifol. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r mesurau hyn yn aml yn "un ateb sy'n addas i bawb" ac efallai na fydd yr hyn sydd wedi gweithio mewn mannau eraill yn cael yr un effaith yng Nghymru. Dyna pam

y byddwn yn parhau i dreialu ac archwilio mesurau gwahanol i helpu i nodi atebion a fydd yn gweithio i Gymru.

Yr hyn hoffwn ei gyflawni

67. Rydym am ddatblygu dull Cymru gyfan i ganiatáu mwy o gydlynïad mewn negeseuon, gan ddefnyddio tystiolaeth a thechnegau sy'n bodoli eisoes. Bydd hyn yn sicrhau bod dinasyddion yn ymwybodol o effeithiau taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon, sut i ddelio â'u gwastraff yn gyfrifol a'u helpu i newid eu hymddygiad yn unol â hynny.
68. Rydym am gael gwared ar unrhyw rwystrau sy'n gallu atal pobl rhag gwneud y peth iawn a'i gwneud yn haws i bobl ymddwyn yn gyfrifol.
69. Byddwn yn ceisio datblygu'r dulliau addysgu presennol sydd ar gael i ysgolion, ac adeiladu arnynt, i sicrhau bod ymddygiadau amgylcheddol cadarnhaol yn cael eu hystyried yn "norm" ymhlith y genhedlaeth nesaf.
70. Rydym am ddatblygu cysylltiadau cryfach â phobl ifanc i sicrhau eu bod yn gallu ymwneud â pholisïau a'u lliwio. Gellir gweld enghraifft o ddiddordeb cryf yn math hwn o waith yn [adroddiad](#) ymgynghori *Y Gorau o'n Gwastraff* Senedd leuencid Cymru.
71. Yn ogystal â gweithio gyda chymunedau a'r Trydydd Sector, rydym hefyd yn cydnabod yr angen i drafod a gweithio gyda'r sector preifat. Rydym am ddatblygu perthynas waith gyson ar draws ystod eang o sectorau a lefelau yng Nghymru. Bydd hyn yn ein galluogi i nodi a rhannu enghreifftiau o arfer da yn ogystal â'n galluogi i ddarparu'r offer a'r gefnogaeth angenrheidiol i bobl i annog ymddygiad amgylcheddol cadarnhaol ehangach.

Addysg a Newid Ymddygiad (EBC) – Yr hyn y mae angen inni ei wneud

Camau Gweithredu	Cyfeirnod	Gweithgarwch	Perchennog	Amserlen (Gwybodaeth bellach)
Datblygu dull cenedlaethol i ymgyrchoedd gwrth-sbwriel a thipio anghyfreithlon	EBC(1)	I helpu i safoni negeseuon a dulliau, byddwn yn dod ag arferion gorau a chanllawiau ynghyd i'w rhannu gyda'n partneriaid, gan gynnwys y sector twristiaeth.	Llywodraeth Cymru/ Busnesau/ Trydydd Sector/ Awdurdodau Lleol/ Cyngorau Tref a Chymuned / Croeso Cymru/ Cyfoeth Naturiol Cymru/ Rheolwr Tir Eraill	Yn parhau
	EBC(2)	Byddwn yn datblygu, gyda phartneriaid, ymgyrch codi ymwybyddiaeth genedlaethol ar daflu sbwriel .	Llywodraeth Cymru/ Busnesau/ Trydydd Sector/ Awdurdodau Lleol/ Cyngorau Tref a Chymuned / Croeso Cymru/ Cyfoeth Naturiol Cymru/ Rheolwyr Tir Eraill/ Senedd Ieuenctid Cymru/ Sefydliadau Ieuenctid	Gwanwyn 2021
	EBC(3)	Byddwn yn parhau i gefnogi ymgyrchoedd penodol ar dipio anghyfreithlon , er enghraifft y Ddyletswydd Gofal Gwastraff Cartref.	Taclo Tipio Cymru/ Cyfoeth Naturiol Cymru/ Awdurdodau Lleol	Yn parhau Enghraifft: Eich Dyletswydd Gofal

	EBC(4)	Byddwn yn parhau i weithio gyda phobl ifanc i nodi llwyfannau cyfathrebu addas i wella ymgysylltiad a helpu i feithrin ymddygiadau amgylcheddol cadarnhaol yn gynnar.	Llywodraeth Cymru/ Trydydd Sector/ Senedd Ieuencid Cymru/ Eraill	Yn parhau
I bawb yng Nghymru i weithio gyda'i gilydd i leihau faint o sbwriel sy'n cael ei daflu a thipio anghyfreithlon	EBC(5)	Gweithio gyda busnesau i ddatblygu mentrau wedi'u targedu sydd â'r nod o atal, codi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad. Bydd ffocws penodol ar sbwriel sy'n gysylltiedig ag ysmegu.	Llywodraeth Cymru/ Awdurdodau Lleol/ Cadwch Gymru'n Daclus/ Cyfoeth Naturiol Cymru/ Taclo Tipio Cymru/ Busnesau	Yn parhau
	EBC(6)	Casglu tystiolaeth a threialu mesurau penodol i newid ymddygiad er mwyn helpu i fynd i'r afael â sbwriel wrth ymyl y ffordd (gan gynnwys sbwriel o safleoedd bwyd brys).	Llywodraeth Cymru/ Busnesau/ Awdurdodau Lleol/ Cadwch Gymru'n Daclus	2021
	EBC(7)	Gweithio gyda chynghorau tref, Busnes Cymru ac Ardaloedd Gwella Busnes i ddatblygu canllawiau ar gynnal glendid y tu allan i safleoedd.	Llywodraeth Cymru/ Awdurdodau Lleol, Cynghorau Cymuned a Thref/ Busnes Cymru ac Ardaloedd Gwella Busnes/ Busnesau	2021/22

	EBC(8)	Edrych ar bartneriaethau rhanbarthol am gyfleoedd cydweithredu yn seiliedig ar llwybrau gofodol h.y. afonydd, camlesi, ffyrdd a rheilffyrdd.	Llywodraeth Cymru/ Cyrff Dyletswydd/ Awdurdodau Lleol/ Busnesau/ Trydydd Sector/ Tirfeddiannwyr Eraill	Yn parhau Ymchwil i sbwriel morol a llwybrau gofodol
	EBC(9)	Parhau i gefnogi camau gweithredu a arweinir gan y gymuned. Er enghraifft, Surfers Against Sewerage, y rhwydwaith Cymunedau Di-blastig, Cadwch Gymru'n Daclus a mentrau gwirfoddol eraill.	Llywodraeth Cymru/ Trydydd Sector/ Cynghorau Tref a Chymuned/ Awdurdodau Lleol	Yn parhau
	EBC(10)	Gweithio gyda'r diwydiant adeiladu a landlordiaid i edrych ar gyfleoedd i leihau achosion o dipio anghyfreithlon sy'n gysylltiedig â'r sectorau hyn.	Llywodraeth Cymru/ Taclo Tipio Cymru / Diwydiant Adeiladu/ Landlordiaid/ Cymdeithasau Tai	Yn parhau
	EBC(11)	Gweithio gyda sefydliadau a chymunedau i gefnogi prosiectau trawsnewid mewn ardaloedd y mae sbwriel a thipio anghyfreithlon yn effeithio arnynt.	Llywodraeth Cymru/ Awdurdodau Lleol/ Cynghorau Cymuned a Thref/ Taclo Tipio Cymru / Cadwch Gymru'n Daclus/ Trydydd Sector/ Cymunedau/ Busnesau/ Eraill	Ongoing

	EBC(12)	Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru i ddeall yn well effeithiau sbwriel carthffosiaeth a chymryd camau ataliol i liniaru hyn.	Llywodraeth Cymru/ Cwmnïau Dŵr Cymru	Yn parhau
I sicrhau bod pawb yn deall effeithiau taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon	EBC(13)	Datblygu porth ar-lein dwyieithog o ansawdd uchel sy'n cynnwys offer ac adnoddau i athrawon.	Llywodraeth Cymru/ Awdurdodau Lleol/ Trydydd Sector	Yn parhau
	EBC(14)	Parhau i weithio gyda'r sector addysg i wella ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith pobl ifanc yng Nghymru.	Llywodraeth Cymru/ Awdurdodau Lleol/ Cynghorau Cymuned a Thref / Addysg/ Trydydd Sector/ Busnesau	Yn parhau
	EBC(15)	Edrych am gyfleoedd i ymestyn adnoddau addysg amgylcheddol presennol i ddarparwyr eraill yng Nghymru.	Llywodraeth Cymru/ Prifysgolion/ Colegau/ darparwyr Addysg Uwch eraill	Yn parhau
Sicrhau bod atal wrth wraidd unrhyw brosiect neu raglen gwrth-sbwriel/tipio anghyfreithlon	EBC(16)	Sicrhau bod atal yn ystyriaeth allweddol mewn cyngor ac arweiniad wrth ariannu prosiectau/cynlluniau gwrth-sbwriel a thipio anghyfreithlon.	Llywodraeth Cymru	Yn parhau
	EBC(17)	Byddwn yn gweithio'n fewnol gydag adrannau eraill, gan gynnwys yr amgylchedd, llywodraeth leol, addysg, twristiaeth a diwylliant, y môr a physgodfeydd a thrafnidiaeth, er mwyn sicrhau bod dull cyson yn	Llywodraeth Cymru	Yn parhau

		cael ei gymryd i atal taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon .		
--	--	--	--	--

Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu a awgrymir dan y thema addysg a newid ymddygiadol? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.

Cwestiwn 8: Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys camau gweithredu eraill dan y thema addysg a newid ymddygiadol i gyflawni nodau'r Cynllun? Os ydych, darparwch wybodaeth a thystiolaeth berthnasol.

Thema 4 – Gorfodi Effeithiol

72. Rydym yn cydnabod bod cyfran fawr o'r boblogaeth yn gwneud y peth iawn ac yn cael gwared ar eu sbwriel yn gyfrifol. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion Awdurdodau Lleol, elusennau amgylcheddol a chymunedau ledled Cymru, mae rhai pobl yn parhau i gyflawni troseddau amgylcheddol fel taflu sbwriel, baeddu gan gŵn a thipio anghyfreithlon. Credwn nad oes esgusodion dros hyn ac rydym yn barod i wella'r drefn orfodi bresennol i helpu i ymdrin â'r rhai sy'n parhau i ddiystyru'r gyfraith.

Lle'r ydym ni arni

73. Rydym wedi cyflwyno nifer o gyfreithiau sydd wedi galluogi awdurdodau gorfodi i gymryd camau yn erbyn y rhai sy'n taflu sbwriel ac yn tipio'n anghyfreithlon. Cefnogwyd hyn drwy ddarparu [canllawiau](#) ar ddefnyddio cosbau penodedig i sicrhau bod unrhyw gyfundrefn orfodi yn cael ei chynnal yn effeithiol ac yn gymesur. Rydym hefyd wedi cefnogi camau gorfodi a gymerwyd gan Awdurdodau Lleol drwy ein cyllid grant ac yn gweithio'n agos gyda sefydliadau fel Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadwch Gymru'n Daclus i helpu i rannu arferion da. Rydym yn parhau i hyrwyddo'r angen i gamau gorfodi fod yn rhan o ddull mwy cyfannol sy'n integreiddio dulliau atal, cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chymau a gymerir ar eu pen eu hunain.

74. Fodd bynnag, Awdurdodau Lleol unigol sy'n gyfrifol am gyflwyno a gweithredu unrhyw gyfundrefn orfodi yn y pen draw. O ganlyniad, gall swm yr adnoddau a'r cyllid a fuddsoddir yn y math hwn o weithredu amrywio. Er enghraifft, mae rhai Awdurdodau Lleol yn gweithredu dull dim goddefgarwch yn rhagweithiol, tra bod eraill yn canolbwyntio'n fwy ar ymgyrchoedd addysg a chodi ymwybyddiaeth. Rydym yn awyddus i gefnogi pob Awdurdod Lleol beth bynnag fo'u dull gweithredu.

75. Gall cymryd camau gorfodi fod yn arbennig o heriol yn achos tipio anghyfreithiol, oherwydd os na eir ati'n rhagweithiol i gadw golwg ar y drosedd, mae'n un anodd ei chanfod. Yn aml, mae'r bobl sy'n tipio'n anghyfreithlon yn gweithredu o dan orchudd tywyllwch ac fel arfer nid ydynt yn gadael llawer o dystiolaeth y gellir ei holrhain yn yr ardal droseddu. Rydym yn cydnabod bod lefel yr adnoddau a'r arbenigedd sydd ar gael i dimau gorfodi Awdurdodau Lleol unigol yn ffactor sy'n cyfrannu at y nifer isel o erlyniadau a gofnodir yng Nghymru ar hyn o bryd.

Yr hyn hoffwn ei gyflawni

76. Rydym am sicrhau bod gweithgarwch gorfodi yn cael ei gymhwyso'n gyson ac yn deg ledled Cymru, gyda dinasyddion yn hyderus bod y dull sy'n cael ei ddefnyddio yn helpu i atal a lleihau troseddau taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon.

77. Rydym am gefnogi'r gwaith o rannu arbenigedd, adnoddau a gwybodaeth ymhlith Awdurdodau Lleol. Rydym yn cynnig gwneud hyn drwy gael pwerau

deddfu newydd, datblygu canllawiau ac adeiladu ar y cysylltiadau gwaith agos yr ydym eisoes wedi'u sefydlu gydag ystod eang o bartneriaid.

78. Byddwn yn cefnogi sefydlu cronfa ddata rhannu gwybodaeth ar dipio anghyfreithlon ar gyfer Cymru ac yn sicrhau yr ymdrinnir â throseddwyd eildro yn briodol.
79. Byddwn hefyd yn edrych am gyfleoedd i wella neu gefnogi'r galluoedd gorfodi tipio anghyfreithlon ym mhob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys gorfodi am droseddau a gyflawnwyd ar dir comin neu breifat.
80. Rydym am i unrhyw un sy'n cael ei ddal yn tipio'n anghyfreithlon gael ei gosbi'n briodol ac i'r wybodaeth hon gael ei chyfleu'n effeithiol er mwyn helpu i atal troseddau yn y dyfodol.

Gorfodi Effeithiol (EE) – Yr hyn sydd angen inni ei wybod

Nodau	Cyfeirnod	Gweithgarwch	Perchennog	Amserlen (Gwybodaeth Ychwanegol)
Datblygu dull gorfodi effeithiol a chyson ar draws Cymru	EE(1)	Adolygu'r gallu presennol i orfodi ledled Cymru a'r symiau cosb benodedig presennol sydd ar gael ar gyfer troseddau taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon gyda'r nod o gynyddu lefelau os oes angen.	Llywodraeth Cymru/ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/ Awdurdodau Lleol	Dechrau 2021
	EE(2)	Ceisio cytundeb i bob ALI symud yn wirfoddol at ddull cyson o orfodi yn erbyn taflu sbwriel ledled Cymru.	Llywodraeth Cymru / Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Awdurdodau Lleol	Dechrau 2021
	EE(3)	Cael pwerau i alluogi datblygu canllawiau statudol ar ddefnyddio pwerau gorfodi ar gyfer taflu sbwriel .	Llywodraeth Cymru	Dechrau 2021 Bil Amgylchedd Drafft y DU (Adran 65)
	EE(4)	Cyflwyno rheoliadau yng Nghymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol	Llywodraeth Cymru	Yn ddarostyngedig i gytundeb Gweinidogol

		ystyried canllawiau gorfodi statudol i fynd i'r afael a sbwriel .		
	EE(5)	Edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno deddfwriaeth i helpu i leihau taflu sbwriel o gerbydau.	Llywodraeth Cymru/ Awdurdodau Lleol	2021
	EE(6)	Edrych ar ddefnyddio atebion arloesol i wella camau gorfodi yn erbyn taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon ar draws Cymru, er enghraifft, defnyddio technoleg newydd.	Llywodraeth Cymru/ Awdurdodau Lleol/ Busnesau/ Cyfoeth Naturiol Cymru	Yn parhau
	EE(7)	Edrych ar gynigion i helpu i gefnogi camau gorfodi i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ledled Cymru gan gynnwys cymryd camau ar dir preifat.	Llywodraeth Cymru/ Awdurdodau Lleol/ Cyfoeth Naturiol Cymru/ Taclo Tipio Cymru	2021/22
	EE(8)	Gweithio gyda Llywodraeth y DU i gasglu tystiolaeth ar ganlyniadau erlyn cyfredol troseddau tipio anghyfreithlon yng Nghymru a Lloegr i benderfynu a oes angen mesurau ychwanegol.	Llywodraeth Cymru/ Llywodraeth y DU	Dechrau 2021
	EE(9)	Cefnogi'r gwaith o sefydlu cronfa ddata rhannu gwybodaeth ar gyfer tipio anghyfreithlon yng Nghymru.	Llywodraeth Cymru/ Taclo Tipio Cymru / Cymdeithas Llywodraeth Leol	2021/22

			Cymru / Awdurdodau Lleol	
	EE(10)	Parhau i gefnogi'r gwaith o rannu arbenigedd, adnoddau ac arferion gorau ymhlith sefydliadau partner drwy Weithgorau/Fforymau.	Welsh Government/ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Awdurdodau Lleol/ Taclo Tipio Cymru / Trydydd Sector	Yn parhau
	EE(11)	Gweithio gyda phartneriaid (yn enwedig Awdurdodau Lleol) i wella'r cyfathrebu rhwng camau gorfodi llwyddiannus a gymerwyd yn erbyn y rhai a gafwyd yn euog o droseddau amgylcheddol megis tipio anghyfreithlon .	Llywodraeth Cymru/ Awdurdodau Lleol/ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/ Cyfoeth Naturiol Cymru	Yn parhau
	EE(12)	Ceisio datblygu pecyn hyfforddiant cenedlaethol safonol ar gyfer swyddogion gorfodi. Byddwn yn ymchwilio i weld a ellir achredu hyn i safon gydnabyddedig.	Llywodraeth Cymru/ Taclo Tipio Cymru / Awdurdodau Lleol	Yn parhau

Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu a awgrymir dan y thema gorfodi effeithiol? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.

Cwestiwn 10: Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys camau gweithredu eraill dan y thema gorfodi effeithiol i gyflawni nodau'r Cynllun? Os ydych, darparwch wybodaeth a thystiolaeth berthnasol.

Thema 5 – Cyflawni Gweithredol Effeithlon

81. Mae gwastraff yn denu gwastraff. Mae darparu a chynnal a chadw biniau, clirio troseddau amgylcheddol megis tipio anghyfreithlon, ac ymchwilio iddynt, yn gallu bod yn gostus. Credwn fod y gwasanaethau hyn yn rhai hanfodol y mae'n rhaid eu darparu. Fodd bynnag, nod y strategaeth hon yn y pen draw yw atal gwastraff rhag cael ei waredu'n anghyfreithlon yn y lle cyntaf.

Lle'r ydym ni arni

82. Gyda phwysau cynyddol ar gyllid cyhoeddus, mae Awdurdodau Lleol, cyrff dyletswydd a Chynghorau Tref a Chymuned yn gorfod gwneud mwy gyda llai o adnoddau. Hyd yn oed pan ddefnyddir ymyriadau traddodiadol, mae'r gwaith o'u cynnal a'u cadw, neu eu rheoli yn gallu bod yn gostus. Er enghraifft, drwy wella'r seilwaith presennol, defnyddio technolegau arloesol a defnyddio data gofodol yn effeithiol, credwn fod cyfleoedd inni ddefnyddio'r adnoddau sydd eisoes gennym yn well.
83. Un ffordd y mae Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned wedi ceisio lliniaru unrhyw ddiffygion mewn adnoddau yw drwy weithio'n agos gyda chymunedau lleol ac elusennau amgylcheddol. Mae hyn wedi cynnwys gweithgareddau fel codi ymwybyddiaeth, trefnu gweithgareddau casglu sbwriel a chefnogi digwyddiadau cymunedol. Rydym yn cydnabod y gwaith caled a wneir gan y gwirfoddolwyr hyn a byddwn yn parhau i gefnogi'r gweithgaredd hwn ledled Cymru. Rydym hefyd yn cydnabod y gall fod heriau gweithredol yn gysylltiedig â hyn ac mae angen ystyried y rhain fel rhan o weithrediad y Cynllun. Er enghraifft, yn aml mae costau'n codi gan Awdurdodau Lleol pan fyddant yn casglu ac yn gwaredu gwastraff a gesglir o ddigwyddiadau glanhau.
84. Mater arbennig o broblemus a drud yw'r heriau gweithredol a achosir gan sbwriel ar ochr y ffordd a thipio anghyfreithlon. Mae'r cyfrifoldeb am glirio'r gwastraff hwn yn dibynnu ar y lleoliad. Er enghraifft, asiantaethau cefnffyrdd Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am glirio'r M4, yr M48, yr A48(M) a rhan benodol o'r A55. Fodd bynnag, yr un fath o broblemau a geir yn aml ym mhob lleoliad ar ochr y ffordd, er enghraifft weithiau bydd angen cau lonydd i gael mynediad i'r gwastraff. Fel rhan o'r camau gweithredu arfaethedig o dan y Cynllun hwn, rydym am fynd i'r afael â'r heriau hyn fel blaenoriaeth.
85. Rydym yn cydnabod bod angen diweddarau ac adolygu'r Protocol Tipio Anghyfreithlon presennol. Bydd hyn yn helpu i ddileu unrhyw ansicrwydd presennol ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ddelio â'r ystod eang o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon sy'n digwydd ledled Cymru.

Yr hyn hoffwn ni ei gyflawni

86. Er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn parhau, bydd ein camau gweithredu yn hoelio sylw ar gyflawni ledled Cymru gyfan, nid mewn ardaloedd trefol yn unig. Bydd hyn yn cynnwys tir Awdurdodau Lleol a chyrff dyletswydd eraill (gan gynnwys gweithredwyr trafnidiaeth fel gorsafoedd rheilffordd a thraciau), ein cyrsiau dŵr a thir preifat.
87. Er mwyn helpu i ddatblygu cymunedau cydnerth a chydlynus, credwn ei bod yn bwysig atal sbwriel a thipio anghyfreithlon. Er mwyn cyflawni hyn rydym am adeiladu ar raglenni cymunedol sy'n bodoli eisoes a cheisio datblygu rhai newydd i helpu i feithrin amgylchedd lle mae'n gymdeithasol annerbyniol cymryd rhan mewn ymddygiadau negyddol o'r fath.
88. Byddwn yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol, tîrfeddianwyr eraill a phartïon eraill â diddordeb, er enghraifft, Cymdeithasau Tai a Chynghorau Tref a Chymuned, i archwilio sut y gellir mynd i'r afael â materion y maent yn eu hwynebu drwy wella seilwaith presennol neu seilwaith newydd. Gellid cyflawni hyn drwy brosiectau adfywio Canol Trefi.
89. Er mwyn sicrhau nad yw'r llinyn hwn o waith atal sbwriel a thipio anghyfreithlon yn arwain at golli'n ddiangen y deunyddiau y gellir eu haildefnyddio, byddwn yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i nodi'r ffordd orau o ddal y deunydd hwn a'i drosglwyddo yn ôl i'r system.
90. Rydym am weithio gyda phartneriaid i nodi mesurau effeithiol i gael gwared ar sbwriel oddi ar ein rhwydwaith ffyrdd yng Nghymru a'i atal rhag cael ei daflu yn y lle cyntaf.

Cyflawni Gweithredol Effeithlon (EOD) – Yr hyn y mae angen inni ei wneud

Camau gweithredu	Cyfeirnod	Gweithgarwch	Perchennog	Amserlen/ Gwybodaeth ychwanegol
Cefnogi'r gwaith o waredu sbwriel a thipio anghyfreithlon yn brydlon ac yn gosteffeithlon ar draws Cymru.	EOD(1)	Adolygu a diweddarau canllawiau presennol y Cod Ymarfer ar Sbwriel a Gwastraff (COPLAR) gyda'r bwriad o nodi cyfleoedd i wella gweithgareddau glanhau.	Llywodraeth Cymru/ Awdurdodau Lleol/ Cyrff Dyletswydd	2021
	EOD(2)	Gweithio gyda chyrff dyletswydd eraill i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau cyfreithiol o ran rheoli eu tir	Llywodraeth Cymru/ Cyrff Dyletswydd (er enghraifft sefydliadau addysgol, cyrff trafnidiaeth penodol)	Yn parhau Adran 89 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd
	EOD(3)	Parhau i roi cymorth i gymunedau i helpu i reoli a chynnal eu hamgylchedd lleol.	Llywodraeth Cymru/ Awdurdodau Lleol/ Cynghorau Tref a Chymuned/ Trydydd Sector/ Cymunedau	Yn parhau
	EOD(4)	Gweithio gyda phartneriaid i nodi mesurau arloesol a chosteffeithiol i atal a gwaredu sbwriel ar ochr y ffordd a thipio anghyfreithlon .	Llywodraeth Cymru/ Asiantaethau Cefnffyrdd/ Awdurdodau Lleol	Yn parhau (Gweler hefyd yr adrannau gorfodi a newid ymddygiadol)

Sicrhau bod sefydliadau partner yn cydweithredu'n effeithiol	EOD(5)	Diweddarau'r protocol Tipio Anghyfreithlon presennol a sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Lleol yn ei fabwysiadu.	Cyfoeth Naturiol Cymru/ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Awdurdodau Lleol/ Perchnogion Tir Preifat	2021/22
	EOD(6)	Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi rhaglenni addysg / hyfforddiant presennol a nodi bylchau / cyfleoedd ar gyfer rhai newydd.	Llywodraeth Cymru/ Awdurdodau Lleol/ Cyngorau Tref a Chymuned/ Trydydd Sector/ Busnesau	Yn parhau
	EOD(7)	Nodi a rhannu enghreifftiau o arferion gorau mewn perthynas â defnyddio technoleg wrth glirio achosion o dipio anghyfreithlon ac ymchwilio iddynt.	Llywodraeth Cymru/ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Awdurdodau Lleol	Yn parhau
Gwella cyfleoedd i afael ar ddeunyddiau ailgylchadwy	EOD(8)	Nodi cyfleoedd i wella'r ddarpariaeth ailgylchu oddi cartref ledled Cymru.	Llywodraeth Cymru/ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Awdurdodau Lleol/ Cyngorau Tref a Chymuned / Trydydd Sector	Yn parhau
	EOD(9)	Gweithio gyda grwpiau cymunedol ac Awdurdodau Lleol i wella'r ffordd y caiff sbwriel ailgylchadwy ei wahanu yn y	Llywodraeth Cymru/ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Awdurdodau Lleol/	Yn parhau

		tarddiad (gan gynnwys casglu sbwriel ar y traeth).	Cynghorau Tref a Chymuned/ Trydydd Sector	
	EOD(10)	Archwilio opsiynau/treialon i wella mynediad i gyfleusterau ailgylchu e.e. Canolfannau Symudol i Ailgylchu Gwastraff Cartref.	Llywodraeth Cymru/ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Awdurdodau Lleol/ Cynghorau Tref a Chymuned/ Trydydd Sector	Yn parhau
Sicrhau nad yw gwasanaethau casglu gwastraff yn cyfrannu at achosion o daflu sbwriel a thipio anghyfreithlon	EOD(11)	Gweithio gydag Awdurdodau Lleol i nodi a hyrwyddo enghreifftiau o arferion da a chysondeb.	Llywodraeth Cymru/ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Awdurdodau Lleol	Yn parhau
	EOD(12)	Datblygu atebion newydd ac arloesol i leihau'r sbwriel sy'n dianc o finiau sbwriel.	Llywodraeth Cymru/ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Awdurdodau Lleol/ Cynghorau Tref a Chymuned	Yn parhau
	EOD (13)	Gweithio gyda Chymdeithasau Tai ac Awdurdodau Lleol i nodi arferion gorau ar ddylunio/gwella ardaloedd a rennir ar gyfer storio gwastraff mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth.	Llywodraeth Cymru/ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Awdurdodau Lleol/ Cynghorau Tref a Chymuned/ Cymdeithasau Tai	Yn parhau

Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu a awgrymir dan y thema cyflawni gweithredol effeithlon? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.

Cwestiwn 12: Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys camau gweithredu eraill dan y thema cyflawni gweithredol effeithlon i gyflawni nodau'r Cynllun? Os ydych, darparwch wybodaeth a thystiolaeth berthnasol.

Cwestiwn 13: Mae ein Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon yn cynnwys sawl cam gweithredu. Yn eich barn chi, pa rai ddylai gael blaenoriaeth? Rhowch resymau.

Atodiad A – Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Ein enw:

Sefydliad (os yn berthnasol):

E-bost/Rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Ein Cynllun Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon

1. Ydych chi'n cytuno y dylid ymdrin â thaflu sbwriel a thipio anghyfreithlon mewn un cynllun sengl? Os nad ydych, rhowch reswm am eich ateb.
2. Ydych chi'n cytuno â'r themâu yr ydym ni wedi'u dewis? Ydych chi'n meddwl y byddant yn ein helpu i gyflawni ein huchelgeisiau? Os na, pa themâu eraill sydd angen eu cynnwys yn eich barn chi?
3. Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu a awgrymir dan y thema lleihau gwastraff? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.
4. Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys camau gweithredu eraill dan y thema lleihau gwastraff i gyflawni nodau'r Cynllun hwn? Os ydych, darparwch wybodaeth a thystiolaeth berthnasol.
5. Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu a awgrymir dan y thema tystiolaeth, monitro a gwerthuso gwastraff? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.
6. Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys camau gweithredu eraill dan y thema tystiolaeth, monitro a gwerthuso gwastraff i gyflawni nodau'r Cynllun? Os ydych, darparwch wybodaeth a thystiolaeth berthnasol.
7. Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu a awgrymir dan y thema addysg a newid ymddygiad? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.
8. Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys camau gweithredu eraill dan y thema addysg a newid ymddygiad i gyflawni nodau'r Cynllun? Os ydych, darparwch wybodaeth a thystiolaeth berthnasol.
9. Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu a awgrymir dan y thema gorfodi effeithiol? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.
10. Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys camau gweithredu eraill dan y thema gorfodi effeithiol i gyflawni nodau'r Cynllun? Os ydych, darparwch wybodaeth a thystiolaeth berthnasol.
11. Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu a awgrymir dan y thema cyflawni gweithredol effeithlon? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.

12. Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys camau gweithredu eraill dan y thema cyflawni gweithredol effeithlon i gyflawni nodau'r Cynllun? Os ydych, darparwch wybodaeth a thystiolaeth berthnasol.
13. Mae ein Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon yn cynnwys sawl cam gweithredu. Yn eich barn chi, pa rai ddylai gael blaenoriaeth? Rhwch resymau.

Cwestiynau ar yr Iaith Gymraeg

Hoffem wybod eich barn am effeithiau posibl ein Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon ar yr iaith Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

14. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?
15. Esboniwch hefyd sut yn eich barn chi y gellid llunio neu newid y Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon arfaethedig er mwyn iddo gael effaith gadarnhaol, neu fwy o effaith gadarnhaol, ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau eraill

16. Rydym wedi gofyn sawl cwestiwn penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Mae'n debygol y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriadau yn cael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. **Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, nodwch hynny yma:**